## A walk with a view

This gentle walk up to 'the Trig' and along the ridgeway path is a local favourite.

On a clear day the views are spectacular - literally right across Powys, from the edge of Carmarthenshire to the English border. You can also see the highest peaks of the 3 main mountain ranges of the Brecon Beacons National Park. Out west, Fan Brycheiniog is the highest point on the Black Mountain. To the east Waun Fach is the summit of the *(confusingly similarly named)* Black Mountains. Between them, Pen y Fan is not only the highest mountain in the central Beacons, but the whole of southern Britain.

The ridgeway path runs right along the edge of Llangors Lake's watershed. Rainfall on the eastern side of the hill runs down to the lake, then via the Afon Llynfi to the River Wye. But on the western side rain runs down into the Usk Valley. A few metres difference up here can add 50 miles to the water's journey to the sea. Whilst the Usk hurries east to Abergavenny then straight down to the Severn Estuary at Newport, the Wye meanders north east into Herefordshire, taking a long and leisurely route via Hereford, Ross-on-Wye and Monmouth before finally meeting the Severn at Chepstow.


## Tro hamddenol - golygfa syfrdanol

Mae pobl leol wrth eu bodd yn mynd am dro hamddenol at y 'Trig' ac ar hyd llwybr y gefnffordd.

Ar ddiwrnod clir, mae'r golygfeydd yn ysblennydd - ar draws Powys gyfan, o gyrion Sir Gaerfyrddin i'r ffin â Lloegr. Fe welwch gopaon uchaf y tair prif gadwyn o fynyddoedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd. I'r gorllewin, Fan Brycheiniog yw copa uchaf y Mynydd Du. I'r dwyrain, Waun Fach yw copa'r Mynyddoedd Duon *(mae'r enwau'n gallu bod yn ddryslyd!)* Rhyngddynt, Pen y Fan yw'r mynydd uchaf yn y Bannau canol ac, yn wir, yn ne Prydain i gyd.

Mae llwybr y gefnffordd yn rhedeg ar hyd cefndeuddwr neu wahanfa ddŵr Llyn Syfaddan. Mae'r glaw sy'n syrthio ar ochr ddwyreiniol y bryn yn rhedeg i lawr i'r llyn ac yna, ar hyd afon Llynfi, i afon Gwy. Ond, mae glaw'r ochr orllewinol yn rhedeg i lawr i Ddyffryn Wysg. Gall ychydig fetrau o wahaniaeth yma ychwanegu 50 milltir at daith y dŵr i'r môr. Brysio tua'r dwyrain i'r Fenni wna afon Wysg, ac yna'n syth i lawr i Aber Afon Hafren yng Nghasnewydd, ond mae afon Gwy yn ymddolennu tua'r gogledd-ddwyain i Swydd Henffordd gan ddilyn llwybr hir, hamddenol trwy Henffordd, y Rhosan-ar Wy a Threfynwy cyn cyfarfod ag afon Hafren yng Nghas-gwent.




## LLYN SYFADDAN HISTORY GROUP
## GRŴP HANES LLYN SYFADDAN

Formed in 2014, the Llyn Syfaddan History Group is a thriving local history group with over fifty members, based around Llangorse Lake.

**Our main objectives are to:**

- Make history enjoyable and accessible to all.
- Promote interest in local history.

### Events

We organise a fun and informative programme of events including guest speakers, field trips and open days. We also participate in the annual Brecknock History Festival. Full details of upcoming events can be found on our website or on Facebook and are advertised locally.

### Projects

The History Group is actively involved in a range of local projects. We have carried out a number of site investigations, record local history and collect interesting artefacts. We also have an extensive photographic record of local events.

### Come and join us

If you're interested in local history, then why not come and join us? We're a friendly group and always welcome new members. Annual membership is inexpensive and gets you free entry to most of our events. If you'd like to join Llyn Syfaddan History Group contact us via our website or come along to any of our events.

Ffurfiwyd Grŵp Hanes Llyn Syfaddan yn 2014 ac erbyn hyn mae'n ffynnu, gyda dros hanner cant o aelodau yn yr ardal.

**Ein prif amcanion yw:**

- Cyflwyno hanes mewn ffordd ddifyr fel bod pawb yn gallu ei fwynhau.
- Ennyn diddordeb mewn hanes lleol.

### Digwyddiadau

Rydym yn trefnu rhaglen o ddigwyddiadau hwyliog, llawn gwybodaeth gyda siaradwyr gwadd, teithiau maes a dyddiau agored. Rydym hefyd yn cymryd rhan yng Ngŵyl Hanes flynyddol Brycheiniog. Fe welwch fanylion llawn y digwyddiadau sydd i ddod ar ein gwefan neu ar Facebook a chânt eu hysbysebu yn yr ardal.

### Prosiectau

Mae'r Grŵp Hanes yn chwarae rhan mewn nifer o brosiectau lleol. Rydym wedi archwilio nifer o safleoedd, ac rydym yn cofnodi hanes lleol ac yn casglu arteffactau diddorol. Mae gennym gofnod ffotograffig helaeth o ddigwyddiadau lleol hefyd.

### Dewch i ymuno â ni

Os oes gennych ddiddordeb mewn hanes lleol, beth am ymuno â ni? Rydym yn griw cyfeillgar sydd bob amser yn croesawu aelodau newydd. Ar ôl prynu tocyn aelodaeth blynyddol am bris rhesymol, cewch ddod i'r rhan fwyaf o'n digwyddiadau am ddim. Os hoffech ymuno â Grŵp Hanes Llyn Syfaddan, cewch gysylltu â ni trwy ein gwefan neu ddod draw i un o'n digwyddiadau.


Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund


www.llangorsehistory.org

## Other walks

There are plenty of other good walks around this area. These are two of our favourites:

### Llangors Lakeside to Llangasty Talyllyn

3 miles/5km out and back.
A gentle walk through fields around the western side of the lake, to the historic church at Llangasty Talyllyn. *(This walk is best in summer as the lake often floods in winter).*



*Llangors Lake at Llangasty Talyllyn.*
*Llyn Syfaddan yn Llangasty Tal-y-llyn.*

### Allt yr Esgair

1.5-3 miles/2.5-5km depending on route.
Start from Llangasty village hall, or the layby on the A40 between Talybont-on-Usk and Bwlch. Topped with an Iron Age hillfort, the Allt has superb views of the lake and the Usk valley.




## Ffyrdd eraill i fynd am dro


Mae digonedd o lwybrau da i'w cerdded yn yr ardal. Dyma ddau o'n ffefrynnau:

### Maes parcio Glan Llyn Syfaddan i Langasty Tal-y-llyn

3 milltir/5km yno ac yn ôl.
Tro hamddenol trwy gaeau ar ochr orllewinol y llyn, at eglwys hanesyddol Llangasty Tal-y-llyn. *(Mae'n well mynd yn yr haf gan fod y llyn yn aml yn gorlifo'i lannau yn y gaeaf).*

### Allt yr Esgair

1.5-3 milltir/2.5-5km yn dibynnu pa lwybr a gymerwch.
Cychwynnwch o neuadd bentref Llangasty neu'r gilfan ar yr A40 rhwng Tal-y-bont ar Wysg a'r Bwlch. Cewch olygfeydd gwych o'r llyn a dyffryn afon Wysg o ben yr Allt ac mae yno fryngaer o'r Oes Haearn hefyd.



*Pen y Fan and the Usk valley from Allt yr Esgair.*
*Pen y Fan a dyffryn afon Wysg o Allt yr Esgair.*

# TALYLLYN
## PENNORTH

# PANORAMIC WALK
# LLWYBR PANORAMIG



## LLYN SYFADDAN HISTORY GROUP
## GRŴP HANES LLYN SYFADDAN